**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 20 RHAGFYR 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell, Mrs Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:35

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Cyfeiriwyd at y Datganiadau o Fuddiant a wnaed yng nghyfarfod mis Tachwedd mewn perthynas â Julie May a David Powell a'r arolwg o ffin tua'r Môr Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Croesawyd Cher Cooke i'r Comisiwn gan y Cadeirydd ac i'w rôl fel Swyddog Arolygon.

2.2. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r cyfarfod Rhwng-comisiynau a gynhaliwyd yn Belfast.

2.3. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r cyfarfod o CLILC ar 15 Rhagfyr mewn perthynas â'r rhaglen arolygon etholiadol sydd wedi dechrau.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar newid bach.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 01 Rhagfyr 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 2) Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – Mae'r Comisiwn wedi cyfarfod â CLILC, a bydd yn cyfarfod ag Un Llais Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a rhanddeiliaid eraill yn yr wythnosau i ddod. **Prif Weithredwr**

- (Mater 8) Strategaeth TG - Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu astudiaeth ddichonoldeb i ddarparu achos busnes i'r Comisiwn ar ddyddiad yn ddiweddarach. **Dirprwy Brif Weithredwr**

- (Mater 10) Cyfarfod Rhwng-comisiynau 2017 – Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ystyried trefniadau i gynnal y cyfarfod nesaf Rhwng-comisiynau. **Prif Weithredwr.**

## 5. Cynllun Trosiannol y Gymraeg

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Tachwedd 2016 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn i dderbyn yr argymhellion a awgrymwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth o ran bodloni'r safonau.

5.3. Gofynnodd y Comisiwn am i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Comisiwn ym mis Chwefror mewn perthynas â'r datblygiad o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg hyd yma. **Rheolwr Cymorth Busnes.**

## 6. Cyflwyniad i'r Athro Mark Drakeford, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

6.1. Croesawodd y Comisiwn Ysgrifennydd y Cabinet, Lisa James a Sinead O'Toole i'r cyfarfod. Y testunau a drafodwyd oedd yr Arolygon Etholiadol cyfredol, arolygon o Gynghorau Tref a Chymuned, ac arolwg o ffiniau tua'r môr. Rhoddwyd cyflwyniad am yr adnoddau TG i'w defnyddio wrth gynnal arolygon o drefniadau etholiadol.

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Register

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Rhagfyr 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Yn dilyn y cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn gynharach, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd mater cyflawni arolygon cymunedol yn peri risg sylweddol i amcanion corfforaethol y Comisiwn mwyach. **Cytunodd** y Comisiwn i ddileu risg CR10 o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

7.3. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnwys y risg newydd CR14 mewn perthynas â'r arolwg o ffiniau tua'r môr.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 02 Rhagfyr 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Cytunodd** y Comisiwn i'r trosglwyddiadau arfaethedig rhwng cyllidebau 2016/17 i gynnwys gorwariannau amcangyfrifedig.

8.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ildio £40,000 yn ôl i Lywodraeth Cymru ac i hysbysu'r adran noddi am y penderfyniad hwn ar unwaith.

8.4. **Cytunodd** y Comisiwn i ofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru ar y weithdrefn o ddefnyddio tanwariant pellach fel gwariant cyfalaf mewn perthynas â phrynu caledwedd ar gyfer y system TG newydd, yn amodol ar ystyried a chytuno ar astudiaeth ddichonoldeb ac achos busnes ar ddyddiad yn ddiweddarach.

## 9. Ffiniau Tua'r Môr

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 05 Rhagfyr 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â chais i gynnal arolwg o ffiniau tua'r môr Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

9.2. Nodwyd y Datganiadau o Fuddiant a wnaed yng nghyfarfod mis Tachwedd mewn perthynas â Julie May a David Powell a'r arolygon o ffiniau tua'r môr Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ystyriwyd, ar hyn o bryd, y gallai'r Aelodau gyfranogi yn yr ystyriaeth o'r Adroddiad.

9.3. **Cytunodd** y Comisiynwyr i gynnal yr arolwg o'r ffiniau tua'r môr, mewn ymateb i'r llythyr dyddiedig 28 Tachwedd 2016 gan sefydliad datblygu Morlyn Llanw Bae Abertawe.

9.4. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer fach o gywiriadau gramadegol.

9.5. **Cytunwyd** y ddogfen Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr: Polisi ac Arfer a'r amserlen arolygon ddangosol, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 10. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Rhagfyr 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ynglŷn â chynnydd arolygon.

10.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 11. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Tachwedd 2016 gan y Rheolwr Cyllid ynglŷn â chofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016.

11.2. **Nodwyd** y cynigion gan y Comisiwn i gyflwyno trefn cyfranogi mewn cyfarfodydd archwilio blynyddol ar y cyd, ac i ddechrau cyhoeddi agendâu cyfarfodydd yn ychwanegol at gofnodion cyfarfodydd, fodd bynnag, **Cytunodd** y Comisiwn i gynnal ei arferion cyfredol.

## 12. Amcangyfrif o Ofynion Cyllideb 2017-18

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 02 Rhagfyr 2016 gan y Rheolwr Cyllid, ynglŷn â gofynion cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2017-18.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn i'r ffigurau amcangyfrifedig yn yr adroddiad ac i roi crynodeb o'r rhain i Lywodraeth Cymru.

12.3. **Cytunodd** y Comisiwn i adolygu'r amcangyfrifon eto yn dilyn diweddariad ar y costau cyfalaf arfaethedig ar gyfer TG.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. Ystyriodd y Comisiwn y Calendr Digwyddiadau sydd i ddod.

## 14. Unrhyw Fusnes Arall

14.1. Ni thrafodwyd unrhyw Fusnes Arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 24 Ionawr 2017**